Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Beth yw Adolygiad Diogelu Unedig Sengl?

**Caiff Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) ei gynnal pan fydd rhywun wedi profi niwed arwyddocaol neu wedi marw, a bod pobl yn meddwl bod gwersi i'w dysgu.**

Bydd asiantaethau a fu'n gweithio gyda chi yn dod ynghyd i drafod beth ddigwyddodd ac i weld a fyddai wedi bod yn bosibl gwneud unrhyw beth yn wahanol.

Bydd gofyn ichi rannu eich barn ar beth ddigwyddodd. Mae eich cyfraniad yn bwysig iawn.

Mae hyn yn rhoi cyfle i asiantaethau ystyried y gwersi sy'n gallu cael eu dysgu a sut mae modd gwella arferion a gwasanaethau yn y dyfodol.

## Sut ydyn ni'n cynnal yr Adolygiad?

Caiff Panel Adolygu ei gynnal i reoli'r broses adolygu. Mae'r Panel hwn yn cynnwys uwch-aelodau staff o'r asiantaethau a fu'n gweithio gyda chi neu'n eich cefnogi.

Gall y Panel gynnwys aelodau staff o sefydliadau fel y GIG, yr awdurdod lleol, y gwasanaeth heddlu, y byd addysg, y gwasanaethau prawf neu droseddu ieuenctid, ac unrhyw asiantaeth arall sydd efallai wedi gweithio gyda chi.

Bydd Cadeirydd annibynnol yn cael ei benodi i arwain a goruchwylio'r Panel.

Bydd Adolygydd/Adolygwyr annibynnol yn cael eu penodi i adolygu'r arferion a'r gwasanaethau a gafodd eu rhoi ichi ac i lunio adroddiad gydag argymhellion.

Caiff Digwyddiad Dysgu ei gynnal ar wahân, gydag aelodau staff a oedd yn cymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith o roi gwasanaeth neu gymorth ichi. Bydd y digwyddiad yn rhoi cyfle i'r aelodau staff hyn ddod ynghyd i ystyried beth ddigwyddodd a nodi gwersi i'w dysgu ar gyfer arferion yn y dyfodol.

## Sut ydw i'n cyfrannu at yr Adolygiad?

Mae eich sylwadau'n ganolog i'r broses ADUS. Mae unrhyw sylwadau neu deimladau rydych chi am eu rhannu am beth ddigwyddodd ichi yn bwysig.

Bydd y Cadeirydd neu'r Adolygydd/Adolygwyr yn cysylltu â chi i weld sut ydych chi am gyfrannu at yr Adolygiad. Mae cymorth ychwanegol ar gael, er enghraifft eiriolwyr.

Mae rhai pobl wedi gweld y cwestiynau isod yn ddefnyddiol wrth ystyried beth maen nhw am ei rannu ag Adolygydd/Adolygwyr:

- Sut ydych chi'n teimlo am beth ddigwyddodd?
- Wrth feddwl am y bobl a oedd yn gweithio gyda chi, oes rhywbeth yr hoffech chi iddyn nhw fod wedi'i wneud?
- Wrth feddwl am y bobl a oedd yn gweithio gyda chi, oes unrhyw beth yr hoffech chi iddyn nhw fod wedi'i ofyn ichi?
- Oeddech chi'n teimlo eich bod chi'n gallu siarad â'r bobl a oedd yn gweithio gyda chi?
- Oes unrhyw beth a allai fod wedi cael ei wneud yn wahanol yn eich barn chi?
- Beth ddylai'r Adolygiad fod yn ei ystyried, yn eich barn chi?

Bydd yr Adolygydd/Adolygwyr yn rhannu eich cyfraniadau ag aelodau staff sy'n mynd i'r Digwyddiad Dysgu fel bod unrhyw wersi sydd i'w dysgu yn adlewyrchu'ch sylwadau.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

### Llinell Amser Asiantaethau

Bydd y Panel Adolygu yn llunio llinell amser o achosion pan ddaeth asiantaethau i gysylltiad â chi. Bydd y Panel yn defnyddio'r llinell amser hon i ddeall beth oedd yr asiantaethau yn ei wybod amdanoch chi a sut roeddent yn gweithio i'ch cefnogi a'ch diogelu, ar eu pennau eu hunain a gyda'i gilydd. Bydd y llinell amser hefyd yn cael ei hystyried yn y digwyddiad dysgu.

### Cynnwys Pobl Eraill

Efallai y byddwn yn gofyn i bobl eraill gymryd rhan yn yr Adolygiad gan gynnwys eich teulu a'ch ffrindiau, cynrychiolwyr cymunedol/gwasanaethau cymorth, cymdogion, cydweithwyr, arweinwyr ffydd a chymunedau neu gyflogwyr.

Er mwyn gallu dod i ddeall yr amgylchiadau'n llawn, mae'n bosibl y bydd yr Adolygydd/Adolygwyr yn cysylltu â'r sawl a fu'n gyfrifol am eich niweidio chi. Mae yna ganllawiau pendant ar gyfer cyswllt o'r fath, a bydd angen i bawb gytuno ei bod yn ddiogel ac yn briodol iddo ddigwydd. Bydd yr Adolygydd/Adolygwyr yn trafod hyn â chi cyn cysylltu ag unrhyw bobl o'r fath.

### Cwrdd â'r Panel

Byddwch chi'n cael yr opsiwn i gwrdd â'r Panel Adolygu. Eich penderfyniad chi yw hwn ac nid oes angen ichi benderfynu ar unwaith. Gallwch chi hefyd newid eich meddwl yn ystod y broses Adolygu.

### Yr Adroddiad

Ar ôl y Digwyddiad Dysgu, bydd yr Adolygydd yn llunio'r Adroddiad ADUS gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafodd drwy weithio gyda chi a'r Panel ac yn y Digwyddiad Dysgu.

Bydd yr Adroddiad yn rhoi argymhellion ar beth sydd angen digwydd yn y dyfodol, a bydd yn cynnwys eich sylwadau.

Byddwch chi'n cael cyfle i weld yr adroddiad drafft i wirio ei fod yn gywir ac i sicrhau bod eich sylwadau wedi'u cofnodi'n briodol.

Ni fydd yr Adroddiad yn sôn amdanoch chi yn ôl eich enw a bydd modd ichi ddewis ffugenw i'w ddefnyddio.

Caiff yr Adroddiad ei gyhoeddi a chaiff Cynllun Gweithredu ei rannu â'r bobl iawn fel bod modd mynd i'r afael â'r camau gweithredu.

## Eich Adborth

Ar ddiwedd yr Adolygiad, byddwch chi hefyd yn cael cyfle i ddweud eich dweud am y broses Adolygu. Er enghraifft:

- Oes unrhyw beth yr hoffech chi i rywun fod wedi gofyn ichi amdano, ond na chafodd ei ofyn?
- Oeddech chi'n teimlo eich bod chi'n gallu siarad yn agored â'r bobl a oedd yn cysylltu â chi?
- Oes unrhyw beth a allai fod wedi cael ei wneud yn wahanol yn eich barn chi?
- Oes unrhyw beth a ddylai fod wedi cael ei wneud yn eich barn chi, ond efallai na chafodd ei wneud?

**Mae eich adborth yn bwysig inni a bydd yn cyfrannu at sut y caiff adolygiadau eu cynnal yn y dyfodol.**

## Opsiynau Cymorth

Rydyn ni'n deall bod unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at ADUS yn brofiad trawmatig sy'n peri gofid. Hoffen ni gadarnhau bod cymorth ar gael, p'un a ydych chi am gyfrannu at y broses Adolygu ai peidio

SAMARITANS

**Y Samariaid – 116 123**
Yn cynnig cymorth emosiynol i bobl sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi.

C.A.L.L.

**Llinell gymorth CALL – 0800 132 737**
Llinell gymorth iechyd meddwl i Gymru. Gwasanaeth gwrando a chymorth cyfrinachol.

dan 24/7

**DAN 24/7 – 0808 808 2234**
Un man cyswllt i unrhyw un yng Nghymru sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth a/neu gymorth yn ymwneud â chyffuriau a/neu alcohol.

**Byw Heb Ofn – 0808 80 10 800**
Yn darparu cymorth a chyngor ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

## Sut y caiff fy ngwybodaeth ei defnyddio?

Byddwch chi'n cael dogfen Hysbysiad Preifatrwydd ar wahân a fydd yn nodi'n fanwl sut y caiff eich gwybodaeth bersonol ei defnyddio. Os oes unrhyw gwestiynau gyda chi am yr wybodaeth sydd wedi ei rhoi neu sut y caiff eich gwybodaeth bersonol ei defnyddio, gallwch chi gysylltu â ni ar unrhyw adeg yn ystod y broses, gan ddefnyddio'r rhif ffôn neu'r cyfeiriad e-bost a gawsoch pan wnaethon ni gysylltu â chi am y tro cyntaf.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50930, ISBN digidol 978-1-83625-958-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg